

Pwrpas y bwletin hwn yw rhoi gwybod i chi am ddatblygiadau diweddaraf ym maes llythrennedd a rhifedd, ac am adnoddau ar draws pob cyfnod allweddol.

Croeso i Fwletin Llythrennedd a Rhifedd GwE! Rydym yn gwybod pa mor brysur yw athrawon dosbarth, felly, rydym wedi mynd trwy'r swmp o wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael am y blaenoriaethau cenedlaethol hyn â chrib fân er mwyn gwneud bywyd yn haws! Hydwrwn y bydd yn ddefnyddiol i chi a byddem yn croesawu unrhyw adborth fel y gallwn deilwra bwletinau'r dyfodol i fodloni eich anghenion.

Adnoddau-Beth sydd ar gael ar y lein?

Llythrennedd

Pump Prysyr

Oddech chi'n gwirionni ar lyfrau Enid Blyton? Mae @ebol wedi cyhoeddi 8 llyfryn newydd o'i gwaith wedi eu haddasu gan Manon Steffan Ros, yn y gyfres Pump Prysyr. Mae'r diwyg yn lliwgar ac yn siwr o apelio.

Ewch i wefan @ebol am fwy o fanylion –

<http://www.atebol.com/ProductCart/pc/showsearchresults.asp?resultCnt=10&keyword=pump+prysyr&x=0&y=0>

Adnodd Newydd!

Cyfes y Geiniog – Canolfan Peniarth

Dyma gyfres o bedair nofel Gymraeg ar gyfer plant 7-11 oed sy'n cefnogi addysg ariannol yn unol â gofynion penodol y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r gyfres hefyd ar gael yn y Saesneg, dan y teitl Money Matters series.



Rhifedd

World Maths Day 15^{fed} o Hydref 2015

Esgus bendigedig i wneud rhywbeth ychydig yn wahanol yn lle'r wers fathemateg arferol fyddai cymryd rhan yn un o achlysuron mathemateg mwya'r byd. Y nod yw codi safonau rhifedd mewn ffordd hwylus a phwrpasol;

<http://www.3plearning.com/worldeducationgames/>

Mathcymru

Mae Mathcymru yn cynnig grantiau o hyd at £400 am brosiectau sydd yn cynnwys rhesymu rhifyddol. Mae gwahoddiad i ysgolion i ymgeisio fis Hydref, i'w cwblhau erbyn dechrau Rhagfyr. Bydd gwybodaeth bellach ar y broses o ymgeisio ar wefan Mathscymru o Hydref 1af.

<http://www.techniquet.org/20120328214/education/mathcymru-grants.html>

Nodyn i'ch atgoffa

O fis Medi 2015, mae Meysydd Dysgu diwygiedig y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio diwygiedig Cyfnodau Allweddol 2 i 4 yn statudol ar gyfer pob dysgwr mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau a ariennir nas cynhelir.

Y Cyfnod Sylfaen

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/foundation-phase-framework/?skip=1&lang=cy>

Cymraeg

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/welshnc/?skip=1&lang=cy>

Saesneg

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/englishnc/?lang=cy>

Mathemateg

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/mathscnc/?lang=cy>



Fersiynau electroneg o'r Proffilau Cyfnod Sylfaen i'w cael ar Incerts

<http://www.incerts.org/blog>



Allai eich ysgol helpu i ddylanwadu ar Brofion Cenedlaethol 2016? Mae NFER yn chwilio am ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i fod yn rhan o'r peilot ar gyfer profion 2016. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cymryd rhan, yna cysylltwch gyda siwanmeirion@gwegogledd.cymru cyn Medi 30ain .

GwE (@GwEGogleddCymru)

Arfer Dda



The Plaza," ardal ddysgu sy'n cael ei rhannu

Mae Ysgol Gynradd Gwndy wedi sefydlu ardal ddysgu sy'n cael ei rhannu, o'r enw The Plaza, lle y gall disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 fynd er mwyn cwblhau gweithgareddau wedi'u teilwra sy'n adeiladau ar y medrau wedi'u haddysgu mewn gwersi. Mae'r gweithgareddau yn hybu penderfynu a dysgu cydweithredol, ac mae'r dull yn caniatáu am gydbwysedd da rhwng addysgu yn yr ystafell ddosbarth a dysgu annibynnol.

<http://www.estyn.llyw.cymru/best-practice/undy-primary-school-21-212-cy>

Codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd

Mae Ysgol Gyfun Gŵyr, Abertawe, wedi ymrwmo i godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd yn ogystal â gwella lefel cyflawniad disgyblion mwy abl a thalentog. Ffurfiwyd gweithgorau gan athrawon i arsylwi disgyblion ac adroddwyd yn ôl am y rhain mewn sesiynau hyfforddi. Wedyn, cynlluniwyd strategaethau i helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau. O ganlyniad, mae medrau staff wedi cryfhau, ac mae safonau wedi gwella hefyd.

<http://www.estyn.llyw.cymru/best-practice/codi-safonau-mewn-llythrennedd-rhifedd>

Hyfforddiant Llythrennedd a Rhifedd CA3 GwE

Hydref 19 – Hyfforddiant Llythrennedd i'r rhai hynny nad oedd yn bosib iddynt fynychu yr hyfforddiant cychwynol fis Ionawr 2015, neu i gydlynwyr llythrennedd newydd.

Cyfrwng- Saesneg. Lleoliad:Glasdir,LLanrwst.

Hydref 22 – Hyfforddiant Llythrennedd fel yr uchod, Cyfrwng -Cymraeg. Lleoliad:Ysgol Dyffryn Conwy.

Rhagfyr 3ydd – Rhifedd traws gwriclaidd. 2 hanner diwrnod, Cyfrwng- Saesneg y.b/Cyfrwng- Cymraeg y.p

Lleoliad: Glasdir , Llanrwst.
Am fwy o wybodaeth, neu i archebu lle ar unrhyw gwsr, cysylltwch hefo; heddwynvaughanroberts@gwegogledd.cymru

Ser Darllen yr Uwch Gynghair Cymru 2015/16

Rhaglen ymyraeth llythrennedd sydd yn rhedeg am 10 wythnos yw SDUG Cymru, sydd yn defnyddio grym cymhelliant pêl-droed i ysbrydoli plant sydd â lefelau llythrennedd isel i ddarllen. Dilynwch yr isod i gofrestru.

http://www.literacytrust.org.uk/premier_league_reading_stars_cymru/registration_cymraeg